Statws *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2014 Rhif 110 (Cy. 10)

ADEILADU AC ADEILADAU, CYMRU

Rheoliadau Adeiladu (Diwygio) (Cymru) 2014

Gwnaed - - - -	*21 Ionawr 2014*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*23 Ionawr 2014*
Yn dod i rym - -	*31 Gorffennaf 2014*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 1 a 34 o Ddeddf Adeiladu 1984(**1**), a pharagraffau 1, 4, 7 a 10 o Atodlen 1 iddi, sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy(**2**), ar ôl ymgynghori â Phwyllgor Cynghori Cymru ar Reoliadau Adeiladu a'r cyrff eraill hynny yr ymddengys i Weinidogion Cymru eu bod yn cynrychioli'r buddiannau dan sylw, yn unol ag adran 14(7) o'r Ddeddf honno, yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

(**1**) 1984 p.55. Diwygiwyd adran 1 gan adran 1 o Ddeddf Adeiladau Cynaliadwy a Diogel 2004 (p.22); diwygiwyd paragraff 7 o Atodlen 1 gan adran 3 o'r Ddeddf honno a chan adran 11 o Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd ac Ynni Cynaliadwy 2006 (p.19).

(**2**) Trosglwyddwyd y swyddogaethau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 1 a 34 o Ddeddf Adeiladu 1984 a pharagraffau 1, 4, 7 a 10 o Atodlen 1 iddi, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, i Weinidogion Cymru gan Orchymyn Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) (Rhif 2) 2009 (O.S. 2009/3019).